

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Rhif Ymchwil Gymdeithasol:

65/2024

Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2024

# Adolygiad o ryddhad ardrethi busnes ar gyfer eiddo gofal plant cofrestredig, 2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

**OGI** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-613-7

Adolygiad o ryddhad ardrethi busnes ar gyfer eiddo gofal plant  
cofrestredig, 2024

Awdur:

Dr Jack Watkins

Adroddiad Ymchwil Llawn: Watkins, J. (2024). Adolygiad o ryddhad ardrethi  
busnes ar gyfer eiddo gofal plant cofrestredig, 2024. Caerdydd: Llywodraeth  
Cymru, rhif adroddiad GSR 65/2024

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-ryddhad-ardrethi-busnes-ar-gyfer-eiddo-gofal-plant-cofrestredig-2024>

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Dr Jack Watkins

Adran: Isadran Cefnogi Tystiolaeth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [ymchwil.plantatheuluoedd@llyw.cymru](mailto:ymchwil.plantatheuluoedd@llyw.cymru)

# 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Ardrethi annomestig (a elwir hefyd yn ardrethi busnes) yn daliadau ar eiddo annomestig neu fusnes sy'n helpu i dalu am wasanaethau lleol. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (SBRR) parhaol i gefnogi busnesau bach gyda'u biliau ardrethi annomestig yn 2018. Roedd hyn yn cynnwys cynyddu'r rhyddhad sydd ar gael i ddarparwyr gofal dydd cofrestredig. Mae'r cynllun yn cael ei weinyddu gan awdurdodau lleol ac mae'n cael ei gymhwysu'n awtomatig i filiau talwyr ardrethi cymwys.
- 1.2. Ers mis Ebrill 2019, gall darparwyr gofal dydd cofrestredig yng Nghymru dderbyn rhyddhad ardrethi o 100%. Ym mis Medi 2021, i gydnabod yr heriau ariannol a wynebodd y sector yn dilyn y pandemig a chan dynnu ar y dystiolaeth a gynhwysir yn ein hadolygiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, estynnwyd y rhyddhad ardrethi busnesau bach lefel uwch ar gyfer eiddo gofal plant cofrestredig i fis Mawrth 2025.
- 1.3. Cafodd y rhaglen Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ehangach yng Nghymru ei gwerthuso yn 2010.<sup>1</sup> Canfu'r gwerthusiad hwn gefnogaeth eang i ryddhad ardrethi gan fuddiolwyr, fel y gellid disgwyl, yn ogystal â barn rhanddeiliaid eraill bod y cynllun yn deg ac yn hawdd cael mynediad ato. Nododd y gwerthusiad fod y dull yng Nghymru, ar adeg ysgrifennu, yn wahanol i eraill yn y DU wrth geisio darparu cymorth wedi'i dargedu i sectorau penodol, gan gynnwys gofal plant.
- 1.4. Gwnaed gwaith ymchwil pellach ar raglen ehangach Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn 2021 drwy arolwg o fusnesau a gefnogir (n=501).<sup>2</sup> Ni chynhyrchodd y gwaith ymchwil hwn unrhyw ganfyddiadau sy'n benodol i ddarparwyr gofal plant. Fodd bynnag, mae canfyddiadau ehangach y gwaith ymchwil hwn yn awgrymu:
  - nad oedd hyd at draean o fusnesau bach perthnasol yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau rhyddhad ardrethi, er y gallant elwa ohonynt;
  - amlygodd y rhai a gafodd eu cefnogi fanteision yn cynnwys cynaliadwyedd busnes, yn enwedig mewn cymunedau gwledig neu ddifreintiedig.
- 1.5. Mae asesu effaith economaidd rhyddhad ardrethi busnesau bach yn gymhleth oherwydd cyfyngiadau data a'r her o briodoli effaith, yn enwedig mewn cyd-destun newid economaidd. Amlygwyd hyn mewn gwerthusiad cyhoeddus o Gynllun Bonws Busnesau Bach Llywodraeth yr Alban.<sup>3</sup> Ni allai'r gwaith ymchwil hwn ddod o hyd i dystiolaeth bod rhyddhad ardrethi wedi cael effeithiau cadarnhaol ar weithgarwch, twf neu gyflogaeth busnesau, er bod adlewyrchiadau gan fusnesau a gefnogir yn gadarnhaol.

---

<sup>1</sup> [Gwerthusiad o'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

<sup>2</sup> [Rhyddhad ardrethi busnesau bach: dadansoddiad arolwg | LLYW.CYMRU](#)

<sup>3</sup> [Dogfennau ategol - Small Business Bonus Scheme: evaluation - gov.scot \(www.gov.scot\)](#)

- 1.6. Serch hynny, mae'n bosibl damcaniaethu effaith bosibl y cynllun yng Nghymru drwy asesu cyfraniad y sector ac ystyried effaith bosibl costau safleoedd/gweithredu.
- 1.7. Ers yr adeg hon, mae Llywodraeth Cymru wedi casglu gwybodaeth fonitro ac wedi ystyried dystiolaeth ehangach i ystyried effaith y cynllun. Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o'r dystiolaeth hon, gan gynnwys:
- Data bilio ardrethi annomestig awdurdodau lleol;
  - Data a gesglir drwy Arolygiaeth Gofal Cymru;
  - Data a gesglir drwy arolwg Llywodraeth Cymru o ddarparwyr gofal plant ar eu hincwm a'u gwariant;
  - Canfyddiadau Galwad Llywodraeth Cymru am Dystiolaeth drwy randdeiliaid yn y sector.

## 2. Cefndir

- 2.1. Cytunwyd ar y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach lefel uwch ar gyfer darparwyr gofal dydd yng Nghymru i gydnabod rôl galluogwr economaidd allweddol y sector wrth gefnogi rhieni a gofalwyr i gael mynediad a pharhau i fod mewn cyflogaeth. Ei nod hefyd yw helpu darparwyr i ddod yn fwy sefydledig ac i weithredu a thyfu.
- 2.2. Mae gan y sector gofal plant fodel gweithredu busnes unigryw, ac mae'n ddarostyngedig i Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Rheoleiddio Gofal Plant (NMS) Llywodraeth Cymru. Mae'r safonau rheoleiddio hyn, er eu bod yn hynod bwysig ar gyfer diogelu plant, yn gosod nifer o gyfyngiadau ariannol ar ddarparwyr gofal plant sy'n golygu y gall eu hardrethi annomestig gynrychioli cyfran uwch o'r costau i'r sector o'u cymharu â busnesau bach eraill.
- 2.3. Mae Awdurdodau Lleol yn ymgysylltu â darparwyr gofal plant preifat i ddarparu addysg feithrin a rhaglenni Dechrau'n Deg (ac mewn rhai ardaloedd i ddarparu darpariaeth feithrin o fewn ysgolion). Mae darparwyr gofal plant a chwarae yn aml yn ystyried ardrethi busnes fel polisi treth annheg, er y gallai hynny fod yn seiliedig yn rhannol ar ragdybiaeth anghywir nad yw eiddo'r sector cyhoeddus (ee ysgolion) yn ddarostyngedig i rwymedigaethau ardrethi annomestig. Hefyd, nid yw ysgolion yn ysgwyddo cost reoleiddio gyfredol o ystyried eu bod yn cael eu categoreiddio fel gwasanaethau cyhoeddus.
- 2.4. Mae cyrff cynrychioliadol y sector wedi dadlau y dylai busnesau gofal plant gael eu heithrio rhag talu ardrethi busnes gan eu bod yn darparu gwasanaeth hanfodol i rieni a phlant. Maent wedi'u heithrio rhag TAW oherwydd bod CThEF yn ystyried bod y sector yn darparu gwasanaethau lles i blant ac felly nid ydynt yn cael eu hystyried fel rhai sy'n gweithredu yn y farchnad nwyddau a gwasanaethau arferol. Mae'r National Day Nurseries Association wedi lansio [deiseb](#) i gael gwared ar ardrethi busnes ar gyfer darparwyr blynyddoedd cynnar yn Lloegr<sup>4</sup>.
- 2.5. Yn dilyn gwerthusiad a gyhoeddwyd yn 2022, mae Rhyddhad Meithrinfeydd Dydd yn yr Alban wedi'i ymestyn am gyfnod amhenodol y tu hwnt i 30 Mehefin 2023, gan ddarparu sicrwydd a chefnogaeth i'r sector<sup>5</sup>.
- 2.6. Mae Rheoliadau Ardrethi Annomestig (Rhyddhad Meithrinfeydd Dydd) (Yr Alban) 2018 yn darparu rhyddhad ardrethi i dalwyr trethi, sy'n meddiannu meithrinfa ddydd. Mae rhyddhad meithrinfeydd dydd ar gyfer eiddo a ddefnyddir yn gyfan gwbl, neu'n bennaf, fel ysgol feithrin o fewn ystyr adran 135 o Ddeddf Addysg (Yr Alban) 1980 (b) sydd hefyd yn darparu gofal dydd i blant (fel y'i diffinnir ym mharagraff 13 neu atodlen 12 o Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) (2010). Nid oes rhaid i unrhyw eiddo sy'n bodloni'r meini prawf uchod dalu unrhyw ardrethi.

---

<sup>4</sup> [petition-launched-to-scrap-business-rates-for-early-years-provider \(NDNA\)](#)

<sup>5</sup> [Llywodraeth yr Alban \(2022\) Nursery Rates Relief: Evaluation](#)

- 2.7. Ar 18 Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Disgownt ar Ardrethi Busnes i Feithrinfeydd 2020-21 fel rhan o'r ymateb i'r pandemig COVID-19.
- 2.8. Ar hyn o bryd, nid oes rhyddhad ardrethi busnes penodol ar gyfer meithrinfeydd dydd yn Lloegr er y gallai lleoliadau meithrin fod yn gymwys i gael y rhyddhad sydd ar gael yn gyffredinol i fusnesau bach.

### 3. Data bilio ardrethi annomestig awdurdodau lleol

- 3.1. Mae'r adran hon yn cyflwyno data ar faint y cynllun, yn seiliedig ar ddata bilio ardrethi annomestig awdurdodau lleol ar gyfer Cymru. Mae'n cynnwys data 2023-2024 ac yn gwneud cymariaethau â blynyddoedd cynharach.
- 3.2. Mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach lefel uwch ar gyfer safleoedd gofal plant yn rhoi rhyddhad i rai darparwyr gofal plant a fyddai fel arall wedi derbyn y cymorth a oedd ar gael cyn 2019/20. Roedd hyn ar ffurf lefel uwch mwy cymedrol y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach cyffredinol. Yn benodol, mae hyn yn cwmpasu:
- busnesau gofal plant gyda safle sydd â gwerth ardrethol o lai na £6,000, a fyddai fel arall yn derbyn rhyddhad ardrethi 100%; a
  - busnesau gofal plant sydd â safleoedd â gwerth ardrethol rhwng £6,000 a £20,000 (yn hytrach na'r £12,000 arferol), a fyddai fel arall yn derbyn rhyddhad ardrethi o raddau amrywiol, er y bydd yn llai na 100% o rhyddhad ardrethi.
- 3.3. Felly mae'r gwerth ychwanegol a grëir gan y cynllun safleoedd gofal plant yn gyfyngedig i rai o'r busnesau hynny sydd â gwerth ardrethol uwch na £6,000.
- 3.4. At ei gilydd, roedd amcangyfrif o 571 o safleoedd gofal plant a oedd yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi busnes drwy'r cynllun safleoedd gofal plant yn 2023-2024. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm rhyddhad o £3.37 miliwn yn cael ei ddarparu drwy'r cynllun yn y flwyddyn honno. Mae Tabl 1 isod yn dangos dosbarthiad cymharol safleoedd gofal plant a'r rhyddhad ardrethi yn ôl gwerth ardrethol.

**Tabl 1 – Safleoedd gofal plant a rhyddhad ardrethi yn ôl gwerth ardrethol, 2023**

<b>Gwerth Ardrethadwy</b>	<b>Nifer yr Eiddo</b>	<b>Canran yr holl eiddo</b>	<b>Cyfanswm SBRR</b>	<b>Canran yr holl SBRR</b>
<b>Hyd at £6,000</b>	126	22%	£212,688.00	6%
<b>Rhwng £6,001 a £20,500</b>	337	59%	£1,665,603.00	49%
<b>£20,501 ac uwch</b>	108	19%	£1,495,460.00	44%
<b>Cyfanswm</b>	<b>571</b>		<b>£3,373,751.00</b>	


*Ffynhonnell: Data biliau ardrethi annomestig gan awdurdodau lleol*

- 3.5. Mae Tabl 1 yn dangos bod gan 22% o'r safleoedd a gefnogir (n=126) werth ardrethol hyd at £6,000, ac felly byddent wedi bod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi o 100% hyd yn oed pe na bai'r cynllun gofal plant yn bodoli. Roedd gan 59% (n=337) werth ardrethol rhwng £6,000 a £20,500 ac felly byddent wedi bod

yn gymwys i gael rhywfaint o ryddhad ardrethi o dan y cymorth a oedd ar gael cyn 2019-20, tra na fyddai 19% (n=108) wedi derbyn unrhyw ryddhad ardrethi fel arall.

- 3.6. Mae Tabl 1 uchod yn dangos bod dosbarthiad safleoedd yn ôl band gwerth ardrethol yn wahanol i ddsosbarthiad gwerth rhyddhad ardrethi yn ôl band gwerth ardrethol, gyda thua 44 y cant o'r gwerth yn cael ei ddyfarnu i'r 19 y cant o safleoedd sydd â gwerth ardrethol dros £20,500. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu gwerth uwch y safleoedd hyn, ac felly'r gost uwch o ddarparu rhyddhad. Mewn cyferbyniad, dim ond 6 y cant o werth y cynllun a ddsosbarthwyd i safleoedd â gwerth ardrethol o hyd at £6,000. Mae hyn yn awgrymu bod y cynllun yn cynrychioli buddsoddiad ychwanegol sylweddol i'r sector.
- 3.7. Mae nifer y safleoedd sy'n gymwys i gael rhyddhad ardrethi drwy'r cynllun gofal plant wedi cynyddu ym mhob blwyddyn ers i'r cynllun ddechrau. Mae Ffigur 1 isod yn dangos y bu cynnydd mewn eiddo cymwys o fewn pob band, yn ogystal â chynnydd canrannol cyson o'i gymharu â 2017–18.

**Ffigur 1. Nifer y safleoedd ardrethi annomestig yng nghategori Meithrinfeydd Dydd a Safleoedd, a'r newid canrannol, 2017–18 – 2023–24**




*Ffynhonnell: Data biliau ardrethi annomestig gan awdurdodau lleol*

- 3.8. Mae Ffigur 2 isod yn dangos, o'i gymharu â'r newid yn nifer yr eiddo, fod cynnydd sydyn wedi bod yn swm y rhyddhad a ddarperir fel rhan o'r cynllun. Mae'r ffigur hwn yn dangos mai'r cynnydd mwyaf yng ngwerth y cynllun oedd yn y tair blynedd gyntaf, cyn yr adnewyddiad yn 2021.



**Ffigur 2. Gwerth rhyddhad ardrethi, safleoedd yng nghategori Meithrinfeydd Dydd a Safleoedd a newid canrannol, 2017–18 – 2023–24**




*Ffynhonnell: Data biliau ardrethi annomestig gan awdurdodau lleol*

- 3.9. Mae cymharu ffigurau 1 a 2 yn dangos bod eiddo gwerth uwch (gyda gwerth ardrethol o £20,501 ac uwch) yn cynrychioli cyfran fwy o gyfanswm gwerth na nifer yr eiddo, sy'n deillio o'r gost uwch o ddarparu rhyddhad i'r eiddo hyn.
- 3.10. Gan fod rhyddhad ardrethi fel arfer yn cael ei gymhwysu'n awtomatig heb fod angen i fuddiolwyr wneud ceisiadau, mae'r codiadau hyn yn debygol o adlewyrchu newidiadau yn y safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwyr gofal plant cymwys. Yn benodol, efallai y bydd yn awgrymu bod nifer cynyddol o fusnesau gofal plant yn defnyddio safleoedd na fyddai wedi bod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi yn flaenorol.
- 3.11. Daw'r cynnydd hwn yn nifer y safleoedd gofal plant a gefnogir er gwaethaf gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm nifer y gwasanaethau gofal plant cymeradwy cofrestredig yn ystod yr un cyfnod. Mae Ffigur 3 isod yn dangos y newid yn nifer y gwasanaethau ac uchafswm capasiti gwasanaethau fel newid canrannol o Ionawr 2020 i Ionawr 2024.<sup>6</sup> Mae'r ffigur yn dangos bod nifer y gwasanaethau gofal dydd plant (y rhai sy'n darparu gofal wedi'u lleoli mewn canolfannau, ac felly byddant, o bosibl, yn gymwys ar gyfer y cynllun) wedi gostwng bob blwyddyn ers 2019, fodd bynnag, ar gyfradd is na gwarchodwyr plant. Yn yr un modd, mae'r ffigur yn dangos bod y newid canrannol yng nghapasiti darparwyr gofal dydd plant wedi bod yn llai na 5%.

<sup>6</sup> Mae'r uchafswm capasiti yn cyfeirio at nifer y plant y caniateir iddynt fod ar safle'r gwasanaethau ar unrhyw un adeg, yn unol â'u cofrestrriad.

**Ffigur 3. Newid canrannol yn nifer y gwasanaethau gofal plant a chwarae cofrestredig cymeradwy ac o ran capasiti, Ionawr 2020–2024**



*Ffynhonnell: Cofrestr Arolygiaeth Gofal Cymru*

3.12. Mae hyn yn dangos tuedd hirdymor yn y sector gofal plant lle mae darparwyr gofal dydd plant sy'n fwy o faint yn cynrychioli cyfran gynyddol o wasanaethau a chapasiti. Gyda'i gilydd, mae hyn yn awgrymu bod cyfraddau lefel uwch y cynllun rhyddhad ardrethi yn debygol o fod yn cyrraedd cyfran uwch o'r sector gofal plant cyfan nag yn y gorffennol, a bod hyn yn debygol o ddeillio o newydd-ddyfodiaid i'r sector yn defnyddio safleoedd sy'n caniatáu mwy o gapasiti na'r rhai sy'n gadael y sector. Yn unol â hyn, dengys Tabl 2 isod fod cyfran yr holl ddarparwyr gofal dydd plant cymeradwy cofrestredig sy'n cael eu cefnogi gan y cynllun wedi cynyddu o 28% i 33%.

**Tabl 2 – Nifer a chyfran y gwasanaethau gofal dydd i blant a gefnogir gan ryddhad ardrethi, 2021 a 2023**

<b>Gwerth ardrethol safleoedd a gefnogir</b>	<b>2020–21</b>	<b>Canran y gwasanaethau cofrestredig</b>	<b>2023–24</b>	<b>Canran y gwasanaethau cofrestredig</b>
<b>Hyd at £6,000</b>	110	6%	126	7%
<b>Rhwng £6,001 a £20,500</b>	337	18%	337	19%
<b>£20,501 ac uwch</b>	85	5%	108	6%
<b>Cyfanswm y safleoedd a gefnogir</b>	532	28%	571	33%
<b>Cyfanswm y safleoedd gofal dydd plant ar gofrestr AGC</b>	<b>1,868</b>		<b>1,729</b>	

*Ffynhonnell: Data biliau ardrethi annomestig gan awdurdodau lleol a chofrestr Arolygiaeth Gofal Cymru*

## 4. Cyfraniad y sector gofal plant i economi Cymru

- 4.1. Mae cyfanswm y rhyddhad ardrethi a hawliwyd hyd yma yn gyfraniad ariannol bach iawn o'i gymharu â gwerth amcangyfrifedig y sector gofal plant i economi Cymru. Amcangyfrifodd adolygiad annibynnol yn 2018 fod cyfraniad economaidd rhieni sy'n gallu gweithio oherwydd darpariaeth gofal plant tua £1.2 biliwn y flwyddyn.<sup>7</sup> Mae hyn yn debygol o fod wedi cynyddu ers 2018 oherwydd chwyddiant ac oherwydd cyllid cyhoeddus estynedig o ofal plant.
- 4.2. Yn ogystal, mae data a gasglwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn awgrymu bod y sector yn cyflogi tua 16,000 o bobl yn uniongyrchol, sy'n cyfateb i tua 1% o boblogaeth oedran gweithio cyflogedig Cymru (amcangyfrifir ei fod yn 1.37 miliwn).<sup>8</sup>
- 4.3. Mae'r sector gofal plant yn chwarae rhan hollbwysig wrth gyflawni sawl ymrwymiad polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gofal plant a ariennir drwy'r Cynnig Gofal Plant i Gymru a'r rhaglen Dechrau'n Deg. Mae gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru wedi adrodd yn gyson dros sawl blwyddyn fod rhieni sy'n defnyddio'r Cynnig yn gweithio mwy o oriau nag y byddent heb y rhaglen,<sup>9</sup> gan awgrymu bod y rhaglen hon a'r sector yn ehangach yn debygol o gael effaith ar economi Cymru drwy roi hwb i gapasiti rhieni i weithio.
- 4.4. Er bod cwmpas posibl yr effaith gadarnhaol ar yr economi yn uchel, mae cyfanswm cost y cynllun rhyddhad ardrethi lefel uwch hwn yn gymharol isel. Yn 2024–25, roedd gan y rhyddhad a roddwyd i safleoedd gofal plant werth o £3.8 miliwn.<sup>10</sup> Mae hyn yn cynrychioli cyfran isel o gyfanswm gwerth yr ardrethi annomestig yng Nghymru, tua 0.3% o gyfanswm yr ardrethi gros sy'n daladwy (neu 2.5% o gyfanswm y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach). Mae cost y cynllun yn cyfateb i tua 0.3% o amcangyfrif cyfraniad ychwanegol rhieni o ganlyniad i ofal plant fel yr amcangyfrifir yn 2018 (£1.2 biliwn y flwyddyn).
- 4.5. Mae gofal plant hefyd yn cynrychioli cyfran gynyddol o wariant cyhoeddus yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi tua £100 miliwn y flwyddyn mewn oriau gofal plant a ariennir drwy'r rhaglenni Cynnig Gofal Plant i Gymru a Dechrau'n Deg. Mae cyflwyno'r rhaglenni hyn yn ddibynnol ar argaeledd lleoedd sydd ar gael trwy ddarparwyr gofal plant sydd yn y sector preifat i raddau helaeth.

---

<sup>7</sup> [Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

<sup>8</sup> [Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\) | LLYW.CYMRU](#)

<sup>9</sup> [Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 5 | LLYW.CYMRU](#)

<sup>10</sup> [Amcangyfrifon ardrethi annomestig yn ôl awdurdod \(£ mil\) \(llyw.cymru\)](#)

## 5. Effaith safleoedd a chostau gweithredol eraill

- 5.1. Ym mis Mai a Mehefin 2024, cynhaliwyd arolwg o sampl o ddarparwyr gofal plant cofrestredig. Gofynnodd yr arolwg hwn i ymatebwyr am eu hincwm a'u gwariant fel rhan o ddarparu gwasanaethau gofal plant. Ymhlith y sampl hon, roedd costau eiddo yn cynrychioli 7% o'r costau ar gyfartaledd. Ar wahân i gostau staffio (74%), roedd safleoedd yn cynrychioli'r gyfran uchaf o'r costau a wynebir gan ddarparwyr. Gellir adolygu copi o'r arolwg yn Atodiad 1.
- 5.2. Roedd tua 39% o'r darparwyr a arolygwyd yn rhentu eu safleoedd gan gynghorau, ysgolion neu sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, gyda chyfrannau llai yn rhentu gan berchnogion preifat (22%), rhentu gan elusennau neu eglwysi (15%) neu'n berchen ar eu safleoedd yn llwyr (9%). Nododd mwyafrif uchel o ddarparwyr sydd wedi'u lleoli mewn canolfannau (y rhai a fyddai'n gymwys ar gyfer y cynllun rhyddhad ardrethi lefel uwch) eu bod yn rhentu eu safleoedd (81%), gyda chanrannau llai yn berchen yn llwyr ar eu safleoedd heb unrhyw daliadau safle (14%) ac yn talu am eiddo trwy forgais (5%). Mae hyn yn awgrymu y bydd y rhan fwyaf o fusnesau gofal plant yn atebol am gostau parhaus er mwyn sicrhau defnydd o'u safleoedd.
- 5.3. Ynghyd â chostau eraill, mae costau safleoedd darparwyr gofal dydd plant wedi cynyddu yn ystod y degawd diwethaf, gyda chynnydd sydyn yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau Arolwg Busnes Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu bod gwariant busnes ar nwyddau a gwasanaethau yn y sector diwydiant 'Gweithgareddau gwaith cymdeithasol heb lety' yng Nghymru (sy'n cynnwys gofal plant) wedi cynyddu 33% rhwng 2021 a 2022, y cynnydd blynyddol mwyaf ers 2017.<sup>11</sup> Mae Tabl 3 isod yn dangos y newid hwn o'i gymharu â'r cyfartaledd ar draws yr holl sectorau busnes.

---

<sup>11</sup> Gellir dod o hyd i ddata ar gyfer 2008–2023 yn [Economi busnesau nad ydynt yn ariannol, canlyniadau rhanbarthol: Adrannau A i S - y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Gellir dod o hyd i ddata ar gyfer 1998–2007 yn

[\[CYNNWYS WEDI'I ARCHIFO\] Tablau Cyfeirio Rhifyn Rhyddhau – SYG \(nationalarchives.gov.uk\)](#)

**Tabl 3. Newid canrannol blynyddol mewn gweithgarwch busnes a chostau, 2021–2022**

	<b>Cyfanswm y Trosiant</b>	<b>Amcangyfrif gwerth ychwanegol gros am brisiau sylfaenol (AgVA)</b>	<b>Cyfanswm pryniannau nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau</b>	<b>Cyfanswm costau cyflogaeth</b>
<b>Pob sector</b>	37%	27%	35%	19%
<b>Gweithgareddau Gwaith Cymdeithasol heb lety</b>	24%	25%	33%	14%

*Ffynhonnell: Arolwg Busnes Blynyddol SYG*

- 5.4. Mae Tabl 3 yn dangos bod pryniannau nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau (sy'n cynnwys safleoedd) wedi gweld cynnydd mwy na chostau trosiant, GYG neu gyflogaeth i'r sector. O'i gymharu â sectorau eraill, mae'r twf mewn trosiant wedi bod yn sylweddol is, sy'n awgrymu nad yw'r cynnydd mewn incwm yn cyfateb i'r cynnydd mewn costau.
- 5.5. Gall y costau cynyddol hyn gyflwyno problemau penodol i'r sector gofal plant. Mae Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig yn gosod gofynion sy'n dylanwadu ar feini prawf ar gyfer safleoedd.<sup>12</sup> Wedi'u cyfuno â'r gofynion rheoleiddio (a disgwyliadau rhieni) ar gyfer amgylchedd ysgogol a hygyrch i blant, mae hyn yn debygol o gyfyngu ar yr ystod o safleoedd a allai fod yn ddefnyddiadwy ar gyfer gofal plant. Canfu adolygiad yn 2018 a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru<sup>13</sup> fod tua hanner yr ymatebwyr wedi nodi y byddai'r costau o geisio safleoedd mwy yn atal eu lleoliad rhag cynnig lleoedd newydd i blant 3–4 oed.

<sup>12</sup> [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig | LLYW.CYMRU](#)

<sup>13</sup> [Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

## 6. Galwad am dystiolaeth

- 6.1. Gwahoddwyd cyrff sector sy'n cynrychioli grwpiau o ddarparwyr blynyddoedd cynnar i ddarparu tystiolaeth ar ran eu haelodau am effaith y cynllun rhyddhad ardrethi lefel uwch. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r prif themâu a chanfyddiadau o'r dystiolaeth hon.
- 6.2. Mae'r holl gyflwyniadau a dderbyniwyd (n=3) yn dadlau'n gryf fod y cynllun wedi bod yn werthfawr o ran lleihau pwysau ar eu haelodau, yn ystod cyfnod o heriau sylweddol i'r sector blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Tynnodd y cyflwyniadau sylw at bwysigrwydd heriau ariannol yn benodol:
- 6.3. Mae Clybiau Plant Cymru yn nodi, mewn arolwg diweddar o'u haelodau, fod 41 y cant o glybiau gwyliau<sup>14</sup> wedi nodi nad oedd eu busnes yn hyfyw yn ariannol ar hyn o bryd. Nododd ymatebwyr eu bod yn bwriadu cynyddu ffioedd (69 y cant), cau elfennau o'r gwasanaeth (21 y cant), a lleihau amseroedd agor (18 y cant) er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau hyn.
- 6.4. Pwysleisiodd Blynyddoedd Cynnar Cymru y tueddiadau parhaus yn nifer y gwasanaethau a'r lleoedd (fel y cofnodwyd yn Ffigur 3 yr adroddiad presennol), gan nodi bod y cydbwysedd newidiol o wahanol fathau o ddarpariaeth yn debygol o gael ei ddylanwadu gan benderfyniadau polisi yn ogystal â chwyddiant, gan arwain at bwysau penodol ar ddarparwyr llai.

“Hoffai ein haelodau a Blynyddoedd Cynnar Cymru weld y RHYDDHAD ARDRETHI BUSNESAU BACH yn cael ei gadw (o leiaf drwy dymor y Senedd) ond, o bosibl, am gyfnod o dair blynedd arall a byddent yn croesawu unrhyw ymrwymiad yn y cyfeiriad hwn i gefnogi'r sector gofal plant a phlant yng Nghymru.”

- 6.5. Cynhaliodd y National Day Nurseries Association arolwg o aelodau yng Nghymru a holwyd iddynt am effeithiau'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach lefel uwch ar gyfer safleoedd gofal plant, a chafwyd 88 o ymatebion. Adroddodd bron pob un o'r ymatebwyr (93%) fod y cynllun yn cefnogi eu busnes i aros yn gynaliadwy. Adroddodd dros hanner fod y cynllun yn caniatáu iddynt fuddsoddi mewn adnoddau a'u hamgylchedd (58%) ac i leihau cynnydd mewn ffioedd rhieni (55%). Mae Tabl 4 isod yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion:

---

<sup>14</sup> Dylid nodi bod clybiau gwyliau fel arfer yn darparu cyfleoedd gofal a chwarae yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol, yn ystod cyfnodau lle efallai na fydd rhieni yn gallu cael mynediad at ofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

**Tabl 4. Ymatebion i arolwg NDNA 2024, 'Pa effaith y mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach wedi'i chael ar eich busnes?'**

Dewisiadau	Nifer	Canran
Parhau'n gynaliadwy	82	94%
Ailfuddsoddi mewn adnoddau a'r amgylchedd	51	59%
Lleihau cynnydd mewn ffioedd rhieni	48	55%
Ailfuddsoddi mewn hyfforddiant staff	43	49%
Cyflogi staff ychwanegol	35	40%
Arall	7	8%

6.6. Gofynnodd NDNA hefyd i'r aelodau am effeithiau posibl dod â'r cynllun safleoedd gofal plant i ben. Nododd 43% o ymatebwyr (37) y byddai'r gost ychwanegol yn arwain at gau eu busnes. Adroddodd eraill y byddai hyn yn effeithio ar ffioedd (38%) a chynaliadwyedd busnes (27%). Cyflwynir crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn Nhabl 5 isod.

**Tabl 5. Ymatebion i arolwg NDNA 2024, 'Beth fyddai'r effaith ar eich busnes pe bai Llywodraeth Cymru yn dileu'r Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar gyfer darparwyr gofal plant?'**

Dewisiadau	Nifer	Canran
<b>Cau'r busnes</b>	37	43%
<b>Cynyddu ffioedd ymhellach</b>	33	38%
<b>Effaith ar gynaliadwyedd</b>	23	27%
<b>Methu ailfuddsoddi yn y busnes a'r adnoddau</b>	18	21%
<b>Effaith ar hyfforddiant staff</b>	7	8%
<b>Byddai angen edrych ar leihau oriau staffio neu ddiswyddiadau</b>	7	8%
<b>Effaith ar gyflogau staff</b>	4	5%
<b>Lleihau lleoedd a ariennir sydd eisoes yn achosi colledion</b>	2	2%
<b>Mae'r cynnig yn lleihau gwasanaethau.</b>	2	2%

6.7. Mae Blynnyddoedd Cynnar Cymru a Clybiau Plant Cymru yn cynnig ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi lefel uwch i gwmpasu busnesau sy'n rhentu lle mewn ysgolion, adeiladau cymunedol ac adeiladau eraill lle nad y nhw yw unig ddeiliaid yr adeilad (gan fod y rhain fel arfer yn talu cyfran o ardrethi i landlord). Mae Clybiau yn cynnig y dylai landlordiaid barhau i allu hawlio rhyddhad ardrethi ar gyfer eiddo sy'n cael eu gosod i leoliadau gofal plant cofrestredig, a dylid eu hannog yn gryf i drosglwyddo eu cynilion i ddarparwyr gofal plant drwy leihau'r ffioedd y maent yn eu codi.

6.8. Mae Clybiau Plant Cymru yn nodi bod ysgolion sy'n wynebu eu pwysau eu hunain yn trosglwyddo costau ymlaen i ddarparwyr chwarae a gofal plant sy'n defnyddio eu safleoedd, ac y gellid mynd i'r afael â hyn drwy sicrhau bod rhyddhad ar gael i ysgolion sy'n llogi lle ar gyfer darpariaeth gofal plant gofrestredig:



## 7. Ymateb busnesau i gostau newidiol

7.1. Mae busnesau gofal plant yn wynebu heriau wrth addasu eu modelau busnes i newidiadau cyflym mewn costau. Canfu adolygiad 2018 o ofal plant yng Nghymru fod y rhan fwyaf o ddarparwyr a arolygwyd yn gweithredu gydag elw isel iawn. Fel y dangosir yn Nhabl 6 isod, mae ein harolwg yn 2024 ar incwm a gwariant wedi nodi bod yr incwm misol canolrifol ymysg ymatebwyr yn llai na £300 yn uwch na lefel ganolrifol y gwariant.

**Tabl 6. Incwm a gwariant misol canolrifol darparwyr gofal plant a arolygwyd, 2024**

	<b>Incwm</b>	<b>Gwariant</b>	<b>Gwahaniaeth</b>	<b>Gwahaniaeth canrannol</b>
<b>Canolrif</b>	2,270	2,007	263	13%

*Ffynhonnell: Arolwg Llywodraeth Cymru o Incwm a Gwariant Darparwyr Gofal Plant*

7.2. Yn nodweddiadol, mae gofal plant, ynghyd â gofal cymdeithasol, yn sector economaidd llafurddwys, gyda dibyniaeth gref ar gyswllt rhyngberonol. Efallai y bydd busnesau yn ceisio ymateb i gostau cynyddol drwy leihau eu gwariant ar lafur, y gost fwyaf yn y sector. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod gofal plant eisoes yn sector cyflog isel. Nododd arolwg 2022 o'r sector fod staff islaw lefel rheolwr neu arweinydd, gan gynnwys y rhai â chymwysterau Lefel 3, yn cael eu talu yn fwy neu lai ar y Cyflog Byw Cenedlaethol.<sup>15</sup> Canfu adolygiad yn 2018 o'r sector yng Nghymru hefyd fod mwyafrif y staff yn cael yr isafswm cyflog, gan awgrymu tuedd tymor hwy16. Fel y cofnodwyd yn Ffigur 3 uchod, mae'r cyfnod hwn ers 2018 wedi gweld gostyngiad yn nifer y gwasanaethau sy'n gweithredu, a nododd tystiolaeth a gasglwyd drwy adolygiad o warchod plant fod cyflogau nad ydynt yn gystadleuol â sectorau cyflogau isel eraill yn debygol o ddylanwadu ar hyn.<sup>17</sup>

7.3. Mae'r darlun cyffredinol o gyflogau sydd ar isafswm cyflogau statudol, neu ychydig uwchlaw hynny, yn awgrymu nad yw busnesau gofal plant yn gallu addasu i gostau cynyddol drwy dorri costau eu staff yn sylweddol. Felly mae gallu busnesau gofal plant i dalu am gostau cynyddol yn debygol o gael ei bennu gan eu gallu i gynyddu eu hincwm. Mae ymatebion i arolwg 2024 ar incwm a gwariant yn awgrymu bod ffioedd gan rieni yn cynrychioli dros 60% o'r holl incwm, gyda'r gweddill yn dod o arian cyhoeddus (gweler Tabl 7 isod).

<sup>15</sup> Gweler [Mapio'r gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru: adroddiad cam 1 | LLYW.CYMRU](#), t.39

<sup>16</sup> [Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

<sup>17</sup> [Adolygiad annibynnol o warchod plant | LLYW.CYMRU](#)

**Tabl 7. Incwm darparwyr gofal plant a arolygwyd, 2024**

	<b>Canran cyfanswm</b>
<b>y ffioedd gan rieni</b>	62%
<b>Ffioedd am ddarparu gofal plant fel rhan o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru</b>	23%
<b>Ffioedd am ddarparu gofal plant fel rhan o Dechrau'n Deg</b>	6%
<b>Cyllid grant gan Lywodraeth Cymru neu Awdurdod Lleol.</b>	4%
<b>Ffioedd am ddarparu addysg gynnar ar ran yr Awdurdod Lleol</b>	3%
<b>Ffioedd eraill gan Awdurdod Lleol am ddarparu gofal plant neu chwarae</b>	1%

*Ffynhonnell: Arolwg Llywodraeth Cymru o Incwm a Gwariant Darparwyr Gofal Plant*

7.4. Mae cyfraddau ariannu Cynnig Gofal Plant Cymru, Dechrau'n Deg ac addysg gynnar a ddarperir gan leoliadau nas cynhelir yn cael eu hadolygu drwy gydol 2024, gyda'r bwriad o wneud unrhyw ddiweddariadau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025–26.

7.5. Mae busnesau gofal plant yn debygol o wynebu heriau sylweddol gan gynyddu eu ffioedd. Fel rhan o'r DU, mae gan Gymru rai o'r ffioedd gofal plant uchaf yn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).<sup>18</sup> Mae ymchwil gyda rhieni yng Nghymru 19 wedi canfod tystiolaeth fod:

- Mae cost breifat gofal plant yn rhwystr i rieni ei ddefnyddio;
- Mae'r rhwystr hwn yn debygol o gael effaith gryfach ymhlith rhieni sy'n ennill llai, ac sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd.

Yn y cyd-destun hwn, efallai y bydd darparwyr sy'n cynyddu ffioedd yn unol â chynnydd yn eu costau yn gweld rhai rhieni yn lleihau'r oriau gofal plant y maent yn eu prynu.

7.6. Mae rhai darparwyr wedi adrodd drwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru eu bod yn cymryd rhan mewn 'croesgymhorthdal' er mwyn denu busnes gan rieni. Nid yw maint yr arfer hwn yn glir, er ochr yn ochr â phatrymau newid mewn ffioedd, gallai awgrymu bod rhieni'n sensitif i gynydd mewn ffioedd ac y gallai'r rhain effeithio'n negyddol ar y galw.

7.7. Efallai y bydd busnesau gofal plant yn cael trafferth mynd i'r afael â chostau cynyddol drwy gynyddu cyfaint eu busnes hyd yn oed lle mae ffioedd yn aros heb

<sup>18</sup> [Costau gofal plant yn y DU yn uchel: Costau gofal plant net i rieni sy'n defnyddio cyfleusterau gofal plant, canran y cyflog cyfartalog, 2020 neu'r diweddaraf | Arolygon Economaidd OECD: United Kingdom 2022 | OECD iLibrary \(oecd-ilibrary.org\)](#)

<sup>19</sup> [Credoau, ymddygiadau a rhwystrau rhieni: gofal plant ac addysg gynnar | LLYW.CYMRU](#)

eu newid. Mae Tabl 8 isod yn dangos bod cyfran y rhieni sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol yng Nghymru wedi aros yn agos at 40% ers 2016.

**Tabl 8. Canran y rhieni sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol, Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016–2023**

<b>Rhieni plant 0–14 oed</b>	<b>2014–15</b>	<b>2016–17</b>	<b>2018–19</b>	<b>2022–23</b>
<b>Yn defnyddio unrhyw ofal plant</b>	49	47	48	48
<b>Yn defnyddio gofal plant ffurfiol</b>	42	39	40	40
<b>Ddim yn defnyddio unrhyw ofal plant</b>	51	53	52	52
<b>Maint sampl</b>	3,300	2,150	2,300	2,000

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

7.8. Canfu arolwg 2024 o ddarparwyr gofal plant a chwarae cofrestredig gan Arolygiaeth Gofal Cymru (n=3,116), fod 6% (196) o'r farn mai dim ond am y chwe mis nesaf yr oedd eu busnes yn gynaliadwy, gyda 12% arall (381) yn ansicr ynghylch eu cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol.

7.9. Yn y cyd-destun hwn, gallwn ddod i'r casgliad nad yw'r sector mewn sefyllfa economaidd gref. Gallai unrhyw gynnydd posibl mewn costau, gan gynnwys o gynnydd mewn atebolrwydd am ardrethi annomestig, gael yr effeithiau canlynol:

- Darparwyr yn codi eu ffioedd, gweld mwy o faich ar rieni a dirywiad, o bosibl, yn yr oriau a ddefnyddir, yn enwedig ar gyfer rhieni ar incwm isel;
- Gostyngiadau cymharol mewn cyflogau yn y sector, gan arwain at ddirywio recriwtio a chadw staff, o bosibl;
- Cyflymu'r dirywiad yn nifer y gwasanaethau cofrestredig cymeradwy.

# Atodiad 1

## Incwm a gwariant darparwyr gofal plant <sup>1</sup>.

Arolwg – Incwm a gwariant darparwyr gofal plant

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg o ddarparwyr gofal plant a gwaith chwarae. Rydym am ddeall mwy am y costau sy'n gysylltiedig â rhedeg busnes gofal plant, a sut rydych yn cynhyrchu incwm.

Rydym am gael gwell dealltwriaeth o hyn er mwyn llywio ein penderfyniadau polisi, gan gynnwys ynghylch y cyfraddau yr ydym yn eu talu am raglenni a ariennir a mathau eraill o gymorth yr ydym yn eu cynnig i ddarparwyr.

